



**Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Mawrhydi
Y PARC**

**Adroddiad Blynyddol
Mawrth 2013 - Chwefror 2014**

DYDDIAD CYHOEDDI: 02/09/2014

Monitro Tegwch a Pharch at Bobl yn y Ddalfa

CRYNODEB O'R CYNNWYS

Adran 1	Crynodeb Gweithredol
Adran 2	Rôl Statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol
Adran 3	Disgrifiad o'r Carchar
Adran 4	Meysydd y mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd i adrodd amdanynt:
Adran 4A	Uned Pobl Ifanc
Adran 4B	Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Adran 4C	Addysg, Dysgu a Sgiliau
Adran 4D	Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl
Adran 4E	Gweithgarwch Pwrpasol
Adran 4F	Adsefydlu
Adran 4G	Dalfeydd Mwy Diogel
Adran 4H	Arwahanu, Gofal a Gwahanu, Goruchwylio Agos
Adran 4I	Gwasanaethau Preswyl
Adran 5	Meysydd eraill y mae'r Bwrdd yn dymuno adrodd amdanynt
Adran 6	Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Unwaith eto, mae'n rhaid i ni adrodd ei bod yn anffodus, gan fod gennym boblogaeth carchar fawr, bod mwy o alw am leoedd i garcharorion ar gyrsiau achrededig a gomisiynwyd gan NOMS nag sydd o lefydd ar gael.

Er bod y Parc yn gwella o flwyddyn i flwyddyn mae peth ffordd i fynd o ran darparu llefydd hyfforddi mewn diwydiannau/gwaith i ddarparu ar gyfer poblogaeth y carchar yn gyffredinol.

Yn ystod haf 2013 cafodd y Parc Arolwg Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a derbyniodd adroddiad gwych gan yr Arolygwyr. Rydym yn canmol hyn, yn enwedig gan fod y Parc yn garchar cymhleth mor fawr.

Mae'r Parc yn mynd drwy ehangu ar hyn o bryd sy'n cynnwys bloc tŷ newydd, canolfan ymwelwyr a lle cloi/giât newydd. Mae maes parcio newydd wedi cael ei adeiladu er nad yw hwn yn dal i fod yn gwbl ddigonol ar gyfer anghenion y staff ar hyn o bryd gan fod nifer o fannau parcio wedi bod allan o gomisiwn gan fod eu hangen ar gyfer gwaith adeiladu/traffig. Mae'r ehangu wedi achosi aflonyddwch i staff ac ymwelwyr fel ei gilydd, ond bwriedir ei gwblhau yn ôl y targed yn hwyr yn 2014 (y bloc tŷ) ac yn gynnar yn 2015 (y gweithdy).

Mae'r rhan fwyaf o swyddogion yn barod i helpu, ond, nodwyd enghreifftiau lle nad yw swyddogion personol rhai carcharorion wedi ymdrin ag anghenion carcharorion drwy ddilyn i fyny ymholiadau a chael atebion perthnasol i garcharorion. Mae hyn yn aml yn arwain at gais diangen i'r Bwrdd.

Er bod person ifanc sydd wedi'i wahanu yn parhau i fod yn Uned y Bobl Ifanc mae'n bryder os yw'n rhannu cell y gallai'r ddau breswlydd golli breintiau er mai'r polisi yw y gofynnir i'r bobl ifanc i gyd a ydynt yn hapus i rannu cell gyda pherson ifanc sydd wedi colli ei deledu yn dilyn dyfarniad.

Gwnaed argraff ar y Bwrdd gan rôl y carcharorion a gymeradwywyd fel Partneriaid y Parc (Cyfeillion) o ran gofalu am y carcharorion o blith yr henoed a'r methodig sydd wedi eu lleoli yn Uned y Carcharorion Hŷn.

Mae cyfrif SKYPE wedi cael ei lansio gan roi cyfle i garcharorion sy'n Wladolion Tramor gyfathrebu â'u teuluoedd nad ydynt yn gallu ymweld â hwy o dramor. Mae'r Bwrdd yn cydnabod hyn fel cam positif arall o ran cysylltiad teuluol.

Rydym yn falch o nodi bod Adran Garddwriaeth y Parc wedi dod yn ail mewn cystadleuaeth yn The Sunday Telegraph. Mae hyn yn adlewyrchu'r arddangosfeydd blodau a llysiau hardd a welir yn nhiroedd y carchar.

Ac unwaith eto mae'r Parc wedi derbyn ei wobwr uchaf erioed sef Gwobrau Celf Koestler.

2 RÔL STATUDOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn mynnu bod pob carchar a Chanolfan Symud Mewnfudwyr yn cael eu monitro gan fwrdd annibynnol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan aelodau'r gymuned y mae'r carchar neu ganolfan wedi'i lleoli ynddi.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb penodol am:

- (1) fodloni ei hun o ran y driniaeth drugarog a chyfiawn a roddir i'r rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei garchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- (2) rhoi gwybod yn ddi-oed i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae ef wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n barnu sy'n briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo.
- (3) adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch pa mor dda mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith y mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd at gofnodion y carchar.

3 DISGRIFIAD O'R CARCHAR/SEFYDLIAD TROSEDDWYR IFANC

Mae Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc, yn sefydliad lleol categori B a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc gydag Uned Pobl Ifanc fechan a: -

- i) Gwaelodlin o Lety Arferol Ardystiedig o 1,170 o oedolion ac oedolion ifanc.
- ii) Capasiti gweithredol presennol o 1474 sy'n cynnwys 1410 o oedolion a throseddwy'r ifanc a 64 o bobl ifanc.

Agorodd Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc ar 17 Tachwedd 1997, a hwn yw'r unig garchar preifat yng Nghymru. Fe'i rheolir gan Wasanaethau Cyfiawnder G4S ar ran y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r.

Yn gyffredin â'r holl sefydliadau dan gontract, mae gan Garchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc Reolwr. Mae'r Rheolwr yn rheoli'r contract 25 mlynedd rhwng Gwasanaeth y Carchardai a G4S, ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwy'r (Cymru).

Yr asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau:

Gwasanaethau Llyfrgell - Cyngor Bwrdeistref Pen-y-Bont ar Ogwr

Roedd y canlynol ymysg Ymwelwyr Nodedig i'r sefydliad yn ystod y flwyddyn adrodd:

Y Gweinidog Carchardai: Jeremy Wright, AS

Gweinidog Swyddfa Cymru: Stephen Crabb, AS

Huw Irranca-Davies, AS (Ogwr)

Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd: Christopher Salmon (Dyfed Powys) ac Alun Michael (De Cymru)

Comisiynydd Plant Cymru: Keith Towler

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Sarah Rochira

Newyddiadurwyr: Simon Israel (Channel 4 News) a Casper Walsh (The Guardian)

Ym mis Mai 2014, cafodd Uned Byw gyda Chymorth y Parc ei chanmol mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin gan Nick de Bois, AS, ac ym mis Mehefin, cafodd Prosiect Waliau Anweledig y Parc ei gadarnhau mewn Dadl Ohirio yn y Senedd gan Madeleine Moon AS.

4A UNED POBL IFANC (dynion 15-17 mlwydd oed)

Mae gan Garchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy Ifanc y Parc Uned Pobl Ifanc gyda lle i gartrefu 64 o ddynion ifanc 15-17 oed. Agorwyd yr Uned mewn ymateb i ddymuniad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid i gartrefu troseddwy ifanc o Gymru yn nes at eu cartrefi. Mae cynnal a chadw cysylltiadau teuluol a chymunedol yn cael ei hyrwyddo a'i annog bob amser. Mae hyn wedi bod yn ethos yr Uned, ac mae'r staff yn gwneud eu gorau i'w hyrwyddo. Mae'r Bwrdd yn gallu adrodd bod y gwaith a wneir yn effeithiol. Mae'n monitro'r Uned yn rheolaidd, fel arfer hyd at dair gwaith yr wythnos.

Mae'r Bwrdd wedi ceisio gwella ei berthynas gyda'r bobl ifanc drwy fynychu'r uned yn ystod amser cinio ac hefyd drwy weld y rhai sy'n cael eu gwahanu. Mae 28.0 y mis ar gyfartaledd yn cael eu gwahanu. Gellir mesur hyn yn erbyn y boblogaeth gyfartalog o 48.1. Mae'r Bwrdd yn canfod bod y bobl ifanc sydd wedi'u neilltuo i'r Parc yn fwy cyfnewidiol ac anodd yn awr, a defnyddir gwahanu i annog y bobl ifanc i gydymffurfio â'r rheolau.

Mae maint yr hunan-niweidio wedi aros yn eithaf isel, yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Mae uwch weithiwr cymdeithasol newydd wedi cael ei benodi a gallai'r penodiad hwn, ochr yn ochr â'r gwaith a wneir gan swyddogion carchar, arwain at ostyngiad yn nifer y digwyddiadau.

Mae pob person ifanc yn cael cynnig cyfle i fynychu'r Ganolfan Dysgu a Sgiliau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol ychwanegol er mwyn gwella eu datblygiad personol a pharatoi ar gyfer dychwelyd i'r gymuned. Mae'r holl bobl ifanc yn derbyn gofal, amddiffyniad a phob cymorth unigol angenrheidiol: yn gymdeithasol, seicolegol, meddygol, addysgol a chorfforol, er mwyn hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r Bwrdd yn adrodd fod yr uned yn ymdrin ag anghenion y person ifanc, gan weithio gyda nhw i ddelio â'u problemau. Mae'r staff yn gweithio'n galed i alluogi'r bobl ifanc i ennill cymwysterau a hyfforddiant, ac i'w darbwylo rhag troseddu yn y dyfodol.

4B CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

Yn nechrau'r flwyddyn adrodd gwelwyd newid enw o'r Tîm Gweithredu Cydraddoldeb i'r Tîm Gweithredu Cynhwysiant Cymunedol, sy'n adlewyrchu rôl fwy cadarnhaol y tîm.

Mae'r tîm yn cynnwys Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Swyddog Gwladolion Tramor a Rheolwr Anableddau. Mae cyflwyno pum grŵp ffocws misol, sef Cynhwysiant Cymunedol (Prif Ystad), Cynhwysiant Cymunedol (Uned Carcharorion Agored i Niwed), Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), Teithwyr Unedig (gan gynnwys Sipsiwn Roma) a'r Parc Unedig (Pobl Hoyw Lesbiaid, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT)) wedi sicrhau bod pryderon yn cael eu trosglwyddo i'r cyfarfodydd bob dau fis. Mae'r cyfarfod tîm yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr, ac mae Panel Partneriaeth a Chraffu Allanol yn cwrdd bob chwarter i graffu ar waith y Tîm.

- **Un peth newydd a gyflwynwyd yw'r llinell gymorth bwrpasol i'r Panel Craffu Allanol i'w defnyddio gan y carcharorion.**

Ar hyn o bryd mae'r Parc yn cadw 51 o garcharorion sy'n wladolion tramor (gyda Fietnam, Punjab, y Weriniaeth Tsiec, Albania a Somalia yn ffurfio'r pum gwlad uchaf y mae'r carcharorion yn tarddu ohonynt). Yn ystod y flwyddyn adrodd hon mae Skype wedi cael ei

gyflwyno i'r Carcharorion i gyd nad ydynt yn derbyn ymweliadau neu nad ydynt yn gweld eu teuluoedd. Mae pob Gwladolyn Tramor yn cael dau slot ffôn tri deg munud bob mis.

Mae nifer y Gwladolion Tramor wedi aros yn gyson dros y 12 mis diwethaf, fel y mae canran y rhai sy'n cael y cyfle i weithio, sef 85%.

Mae'r holl staff newydd gan gynnwys gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn hyfforddiant Gweithredu'n Gynhwysol sy'n gwrs undydd sy'n cwmpasu pob agwedd ar gydraddoldeb. Disgwylir y bydd y staff presennol yn cael eu hyfforddi erbyn diwedd 2014.

4C ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

Mae newidiadau dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys asesiad cychwynnol o fewn wythnos, ac yna mynediad i ddosbarthiadau addysg ar flociau A a B. Ar ôl ymgynghori â'r Uned Pobl Ifanc, penderfynwyd cyflwyno gweithdy aml sgiliau, gan gynnwys plymio, gosod ceginau, a garddwriaeth, gydag amserlenni newydd ar gyfer Saesneg a Mathemateg. Bydd gan y Bwrdd ddiddordeb mewn gweld sut y mae hyn yn gweithio. Roedd canlyniadau'r Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) yn cynnwys 36 pas ar radd A-G, a thri pas ar lefel Uwch mewn Celf a Dylunio. Mae Dysgu o Bell wedi bod yn llwyddiannus iawn hefyd, gyda 170 yn cymryd rhan, sef cynnydd o 50 ar y flwyddyn flaenorol. Rhagwelir y bydd cynnydd pellach yn y dyfodol.

Mae penodiadau pellach yn mynd i gynnwys athro pwnc Saesneg ar gyfer ymgeiswyr TGAU, ac athrawes Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae'r adran Celfyddydau Creadigol/Dyniaethau yn cwmpasu cyrsiau y gellir ymuno â nhw trwy gydol y flwyddyn mewn cerflunwaith, dylunio graffeg, celf, cerddoriaeth, radio, barddoniaeth, cerameg a hanes, ac yn awr y Gymraeg. Mae'r adran hanes hefyd yn ymwneud â gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru (CADW), gyda theithiau maes dan oruchwyliaeth mewn archaeoleg yn cael eu trafod fel opsiwn. Mae'r adran Gelf unwaith eto wedi rhagori yn ei berfformiad gan ennill nifer o wobrau yn y cystadlaethau a noddir gan elusen y celfyddydau carchar, Ymddiriedolaeth Koestler. Cafodd rhywfaint o waith y carcharorion ei arddangos wedyn yn yr arddangosfa celf gyfoes, Biennale Fenis, yn yr Eidal. Cafodd pedwar darn pellach o waith eu harddangos yn Llundain dan nawdd y Cyngor Prydeinig.

- **Cyflwynwyd 367 o geisiadau yng nghystadleuaeth Gwobr Gelf Koestler a rhoddwyd 87 o wobrau. Dyma'r nifer uchaf y mae'r Parc wedi eu hennill hyd yn hyn.**

Mae cerddoriaeth yn parhau i fod yn rhan boblogaidd iawn o'r rhaglen addysg. Mae carcharorion sydd â chefnidir yn y diwydiant cerddoriaeth yn canfod bod hyn yn helpu i'w cadw'n gyfoes.

Mae'r Adran Addysg Gorfforol yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc yn darparu Rhaglen AG o safon uchel, sy'n cynnwys dosbarthiadau wedi'u strwythuro a gweithgareddau y bwriedir iddynt fodloni anghenion, gallu a thalentau'r boblogaeth gyfan. Mae'r staff AG yn gweithio i helpu'r cyfranogwyr i gyd i wneud y gorau o bob cyfle a mwynhau'r cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r holl weithgareddau yn y Rhaglen AG yn adlewyrchu'r gweithgareddau sydd ar gael yn y gymuned. Mae'r Adran AG yn annog cyfrifoldeb

cymdeithasol trwy gyfrwng chwaraeon ac yn cynnig hyfforddiant galwedigaethol/addysgol perthnasol i helpu i leihau aildroseddu a dod o hyd i waith ar ôl eu rhyddhau.

Gyda dau aelod staff amser llawn a dau aelod o staff cyflenwi, mae'r Llyfrgell hefyd wedi dod yn fwy hygyrch i garcharorion.

Ar ôl eu rhyddhau, mae 28% o garcharorion wedi sicrhau lleoliadau gwaith (yn erbyn ffigur targed o 21%), a 16% wedi cael eu derbyn ar gyfer addysg bellach/hyfforddiant (yn erbyn targed o 11%).

4D GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

Yn dilyn yr argymhelliad yn ein hadroddiad diwethaf, mae'r Bwrdd yn falch o nodi bod llai o apwyntiadau wedi'u colli drwy gyflwyno system lle mae apwyntiadau yn cael eu hysbysu i'r gwahanol adrannau 48 awr ymlaen llaw. Mae'r Bwrdd hefyd yn nodi, gyda chymeradwyaeth, y gostyngiadau mewn amseroedd aros cyn i'r carcharor gael ei weld gan staff meddygol.

Ond mae'r Bwrdd er hynny, yn pryderu ei fod yn parhau i dderbyn nifer anghymesur o geisiadau yn ymwneud â gofal iechyd, meddygol a deintyddol, sef 91 yn y cyfnod adrodd presennol.

Mae dau glinig newydd wedi cael eu cyflwyno: Clinig Calon Iach, sy'n sgrinio ar gyfer problemau ar y galon, ac yn cynnig cyngor hybu iechyd, a Chlinig Asesiad Gwybyddol Montreal (MOCA) sy'n sgrinio ar gyfer clefyd Alzheimer.

4E GWEITHGAREDD PWRPASOL

Mae'r pwyslais yn y Parc ar hyfforddi carcharorion i ennill cymwysterau, yn enwedig y Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs). Mae gan y gyfundrefn Diwydiannau le i dderbyn 271 yn llawn-amser a 122 o leoedd rhan amser, ac mae bron pob un ohonynt wedi eu cymryd.

Mae'r Bwrdd yn llongyfarch y Golchdy am ail dendro ac ennill y contract golchi dillad ar gyfer Heddluoedd De Cymru a Gwent. Prosiect newydd nodedig arall yw sefydlu gwasanaeth trwsio cadeiriau olwyn. Mae'r Siop Arwyddion ac Argraffu hefyd wedi ehangu ac mae bellach yn cynnig gwasanaeth helaethach.

- **Er bod y Parc yn gwella o flwyddyn i flwyddyn mae peth ffordd i fynd o ran darparu manau hyfforddiant ar gyfer diwydiant i ddarparu ar gyfer y boblogaeth gyffredinol yn y carchar.**

Yn ogystal â darparu a phlannu gwelyau blodau trawiadol a lliwgar drwy gydol y flwyddyn, mae'r tîm garddwriaeth i'w longyfarch ar rannu'r ail wobwr yng nghystadleuaeth gerddi The Sunday Telegraph.

Mae'r Ganolfan Anifeiliaid yn parhau i ddarparu hyfforddiant mewn lles a hwsmonaeth anifeiliaid, ac yn waith sy'n ehangu'n raddol. Mae'r rhaglen Allgymorth, sy'n cynnwys gwaith prosiect gan garcharorion yn y gymuned, hefyd yn parhau i fod yn llwyddiannus. Rhaid crybwyll hefyd y gwaith celf ar y waliau ac yn y coridorau o amgylch y carchar, sydd yn ogystal ag arddangos talent y carcharorion, yn creu amgylchedd dymunol yn y sefydliad i gyd.

4F ADSEFYDLU

Mae nifer o gyrsiau yn cael eu trefnu i baratoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau yn benodol o ran cwtdogi ar y perygl y byddant yn aildroseddu. Yn y Parc mae yna nifer o Raglenni Ymddygiad Troseddol Achrededig sydd wedi eu sefydlu o fewn y Broses Cynllunio Dedfrydau er mwyn cwtdogi ar risg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP) - mae hon yn cael ei thargedu at yr holl droseddwy'r o risg canolig neu uwch ac yn cael ei chynnal dros 6 wythnos a chynhelir 10 o raglenni ar gyfartaledd bob blwyddyn gan gynnig 120 o leoedd ar gyfer carcharorion.
- Sgiliau Adeiladu ar gyfer Adferiad (BSR) - mae hwn yn gwrs 4 wythnos ar gyfer dynion y mae eu troseddau yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau (Cyffuriau neu alcohol). Mae 8-10 o raglenni yn cael eu cynnal ar gyfartaledd bob blwyddyn gan gynnig 92 o leoedd ar gyfer carcharorion.
- Mae Adeiladu Gwell Perthnasau (BBR) yn rhaglen 10 wythnos i ddynion a gafwyd yn euog o droseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Cynhelir 2-3 o raglenni ar gyfartaledd bob blwyddyn sy'n cynnig 30 o leoedd ar gyfer carcharorion.
- Mae RESOLVE yn rhaglen 12 wythnos ar gyfer troseddwy'r treisgar. Gallai hwn fod yn drais a ysgogir gan bwrpas neu yn drais emosiynol. Mae hyn i fod i ddechrau yn y Parc yn ystod Hydref 2014 a bydd yn dechrau gyda 3 rhaglen a gynhelir bob blwyddyn ond mae hyn yn debygol o godi i 5 yn 2015. I ddechrau bydd y rhaglen hon yn cynnig 30 o leoedd ar gyfer carcharorion.
- Trin Troseddwy'r Rhyw CORE (SOTP) - rhaglen 6 mis yw hon yn benodol ar gyfer dynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol sy'n peri risg canolig, uchel neu uchel iawn o aildroseddu rhywiol. Mae i fod i ddechrau i ben ym mis Awst 2014, a chael ei ddisodli gan RESOLVE.
- Rheolaeth ar gyfer Yfwyr Treisgar a Byrbwyll (COVAID) - cwrs 4 wythnos yw hwn a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â thrais wrth fod dan ddylanwad alcohol. Mae'n targedu 'yfed mewn pyliau' yn arbennig yn hytrach na'r rhai sydd â dibyniaeth ar alcohol. Mae'n fenter bartneriaeth ar hyn o bryd oherwydd ei bod yn cael ei chynnal gan y Parc a'i darparu gan hwyluswyr Ymddiriedolaeth Prawf Cymru. Cynhelir rhyw dair neu bedair rhaglen bob blwyddyn sy'n cynnig 30-40 o lefydd ar gyfer carcharorion.
- Y Prosiect Maddeuant (RESTORE) - rhaglen 2.5 diwrnod yw hon yn ei hanfod a gyflwynir gan hwyluswyr allanol. Ar hyn o bryd nid yw'n rhaglen achrededig. Prif nod RESTORE yw annog meddwl 'yn fyfyriol' ymysg y cyfranogwyr drwy edrych ar effaith troseddu ar yr unigolion, eu dioddefwyr a'u teuluoedd a'u ffrindiau. Cynhelir pedair rhaglen bob blwyddyn sy'n cynnig hyd at 100 o leoedd ar gyfer carcharorion.

- Mae Cyfiawnder Adferol (RJ) yn fenter newydd ar gyfer y Parc ac yn un a fydd yn gweld cynnydd yn nifer y Cynadleddau Cyfiawnder Adferol rhwng dioddefwyr/y sawl sy'n cyflawni trosedd. Rydym wedi cynnal 3 cynhadledd hyd yn hyn, ac maent i gyd wedi bod yn hynod o lwyddiannus yn nhermau'r effaith gadarnhaol ar y dioddefwr a'r troseddwr.

Er nad yw nifer y llefydd yn aml yn bodloni lefel y galw, mae darpariaeth y Parc wedi ehangu dros y blynyddoedd ac adlewyrchir hyn yn nata segmentu NOMS ar gyfer y Parc. Mae hyn yn golygu y gwelir y ddarpariaeth ar hyn o bryd fel digonol ar gyfer poblogaeth y carchar o ran comisiynu gwasanaethau o leiaf.

4G DALFEYDD MWY DIOGEL

Cynhelir cyfarfodydd Dalfeydd mwy diogel yn fisol ac maent yn cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr. Mae ystadegau misol a'r flwyddyn gyfredol yn cael eu dosbarthu gyda'r cofnodion ac mae materion yn codi yn cael eu dilyn i fyny yn gadarnhaol ac yn effeithiol.

Er nad yw 'Gwrandawyr' yn mynychu cyfarfodydd Dalfeydd Mwy Diogel, maent yn cael eu gweld gan aelod o'r Tîm bob wythnos, ac yn cael cyfarfod misol gydag aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Mae unrhyw bryderon sydd ganddynt yn cael eu hadrodd yng nghyfarfod y Dalfeydd Mwy Diogel. Yn y blociau tŷ, mae gan garcharorion hefyd fynediad at ffôn uniongyrchol i'r Samariaid.

Mae sampl a ddewisir ar hap o ffeiliau 'Gwaith Tîm Asesu Gofal yn y Ddalfa' (ACCT) yn cael eu gwirio bob wythnos er mwyn sicrhau cydymffuriad â gofynion gweithdrefnol, ac i weld bod yr asesiadau yn cael eu cwblhau ar amser ac i safon uchel.

Mae'r Uned Dalfeydd Mwy Diogel yn parhau i ddarparu amgylchedd diogel a thawel ar gyfer y rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth.

Mae gan yr Uned Pobl Hŷn 32 o gelloedd, ac mae tua hanner ohonynt wedi cael eu haddasu i'w defnyddio gan gadeiriau olwyn. Mae'r staff ar yr uned wedi cael hyfforddiant o ran adnabod dementia yn gynnar.

- **Mae rôl y carcharorion a gymeradwywyd fel Partneriaid Cyfoedion wrth gynorthwyo gyda gofal yr henoed a'r methodig wedi creu argraff fawr ar y Bwrdd.**

Bu chwech o farwolaethau heb fod yn rhai a hunan-achoswyd yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd presennol. Mae tri chwest yn dal i fod angen eu cynnal, ynghyd â'r cwest i farwolaeth a ddiwyddodd yn Hydref 2012. Fe wnaeth y tri chwest a gwblhawyd gyflwyno rheithfarn o achosion naturiol. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi bod yn hynod ganmoliaethus am ansawdd y gofal terfynol a ddarperir ar gyfer y rhai sydd wedi marw yn Uned Pobl Hŷn y Parc.

Prif achosion trais yn y carchar o hyd yw tybaco, dyledion, cyffuriau a gamblo.

Mae pob gweithred gorfforol neu eiriol o drais, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu wahaniaethu yn cael ei herio, a defnyddir sanctsiynau a cheryddon priodol a chyson, gyda'r dioddefwyr yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn hefyd. Mae log goruchwyliaeth yn cael ei agor ar yr holl unigolion sy'n ymwneud â phob digwyddiad treisgar, sy'n cofnodi unrhyw

ymddygiad gwrthgymdeithasol sylweddol. Er na lanswyd y log hwn tan yn ddiweddar, ym marn y Bwrdd, mae hyn eisoes yn arwain at fanteision o ran y ffordd y mae staff yn gweithio gyda'r sawl sy'n cyflawni troseddau a dioddefwyr y trais.

4H ARWAHANU, GOFAL A GWAHANU, GORUCHWYLIAETH AGOS

Mae Uned Phoenix yn cynnwys 24 o gelloedd, rhai gyda chamerau sy'n monitro o swyddfa'r adain. Mae ei datganiad cenhadaeth yn crynhoi ethos yr Uned: *Herio ymddygiad negyddol ac annog ymgysylltu gyda'r nod o ailintegreiddio carcharorion yn llwyddiannus yn ôl i'r boblogaeth yn gyffredinol.*

Mae yna 21 o gelloedd ar gyfer gwahanu, mae un heb ei dodrefnu ac mae dwy yn gelloedd arbennig sy'n cael eu defnyddio yn dilyn camymddwyn difrifol. Ym marn y Bwrdd, mae'r uned yn cael ei rheoli'n dda gan staff cydymdeimladol sy'n gorfod delio â sefyllfaoedd hynod gyfnewidiol o ddydd i ddydd. Mae holl gofnodion perthnasol y carcharorion a gwaith papur cysylltiedig yn gyffredinol wedi'u diweddarau'n briodol a defnyddir gweithdrefn fonitro lem gan reolwyr yr uned sy'n sicrhau bod safonau cofnodi da yn cael eu cynnal.

Mae'r Bwrdd wedi mynychu'r rhan fwyaf o adolygiadau 72 awr a'r holl adolygiadau 14 diwrnod. Mae'r Bwrdd yn fodlon fod pob adolygiad yn cael ei gynnal mewn modd teg a phriodol gyda safon dda o gadeirio. Yn flaenorol, mynegwyd pryder ynghylch y ffaith nad oedd yr adolygiadau yn dechrau'n brydlon, ond yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae'r adolygiadau wedi bod yn fwy prydlon ac wedi cael eu mynychu'n well gan bob parti. Serch hynny, mae oedi o ran cynrychiolaeth Gofal Iechyd yn parhau i ddigwydd o bryd i'w gilydd.

Mae'r Bwrdd yn cael ei hysbysu pryd bynnag y bydd carcharor yn cael ei dderbyn i'r Uned. Mae'r Bwrdd yn bodloni ei hun ar gyfer unrhyw fater disgyblu neu brotest fudr sy'n arwain at gadw carcharor yn Uned Phoenix, bod yr holl weithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn a bod y digwyddiadau wedi cael eu cofnodi'n llawn. Yn ystod unrhyw wythnos, bydd pob carcharor yn cael ei weld a siaradir ag ef gan yr aelod o'r Bwrdd sydd ar ddyletswydd.

Mae'r Bwrdd yn falch o nodi yn ychwanegol at y rhaglenni ymyrraeth y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad y llynedd, bod cynllun hyfforddi newydd un-i-un wedi cael ei gyflwyno. Mae aelod o dîm ymyrraeth yr uned yn siarad gyda'r carcharor am yr holl broblemau ac yn trafod yr hyn y gellir ei wneud i atal ei ymateb i wahanol bwyntiau sbardun. Unwaith y bydd y carcharor wedi cael ei ailintegreiddio o Uned Phoenix i leoliad arferol, bydd swyddogion ymyrraeth yn monitro cynnydd carcharorion am bythefnos, i sicrhau bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei gynnal.

Cyflwynwyd polisi dim ysmegu yn Uned Phoenix ar 31 Gorffennaf, 2013.

- **Mae'r Bwrdd yn falch fod nifer y carcharorion a roddir yn yr uned yn parhau i fod yn sylweddol is nag mewn blynyddoedd blaenorol, a bod y drefn newydd wedi bod yn gadarnhaol yn hyn o beth.**

4I GWASANAETHAU PRESWYL (yn cynnwys llety, bwyd, arlwyo a cheginau)

Yn dilyn yr adroddiad diwethaf ar Garchar Ei Mawrhydi y Parc mae cynllun wedi cael ei roi ar waith i newid matresi a chypyrddau mewn celloedd lle bo angen i wella safonau llety ar draws y sefydliad. Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn fframwaith Cynllun y Swyddogion Personol gyda chyflwyno Log Cysylltu y mae swyddogion personol yn ei lenwi yn dilyn

arsylwadau a sgysiau gyda charcharorion yn ychwanegol at ddiweddarau gwybodaeth ar system gyfrifiadurol. Mae hyn yn unigryw i'r Parc ac yn sicrhau bod pryderon a phroblemau yn ogystal â chynnydd yn cael eu cofnodi.

Mae'r gegin wedi setlo i lawr ar ôl ei hehangu ac o ystyried faint o brydau a baratoir yno ychydig iawn o gwynion y mae'r Bwrdd yn eu derbyn am y bwyd. Mae'r fwydlen a ddewisir ymlaen llaw yn gweithio'n dda gyda dewis ar adegau o bedwar o brif brydau gyda'r nos.

5 MEYSYDD ERAILL

- Rhai sy'n cael eu halltudio: Ym mis Ionawr 2013 roedd 52 o garcharorion oedd yn Wladolion Tramor, gyda 6 ohonynt wedi cwblhau eu dedfrydau (o Wlad Pwyl, Somalia, Eritrea, Iran a Tsieina)
- Mae'r neuadd ymweld yn ddigonol, ond rydym yn aros yn eiddgar am Ganolfan Ymwelwyr bwrpasol fel rhan o'r ehangiad.

6 GWAITH Y BWRDD

Mae tri aelod newydd o'r Bwrdd a benodwyd yn 2012 yn gwbl weithredol erbyn hyn. Mae pob aelod wedi mynychu hyfforddiant perthnasol yn genedlaethol ac yn lleol ac mae pob aelod yn mynychu cyfarfod bwrdd misol.

Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan y Bwrdd wedi gostwng tua 30% yn ystod y flwyddyn adrodd hon, ac mae hyn i'w briodoli i gwtogi'r feddiannaeth llinell sylfaen a chymhwyso gofynion y Bwrdd yn llymach i ddilyn y weithdrefn gwyno fewnol cyn gwneud cais i ni.

- **Er y gwelir bod y system gwynion fewnol yn gweithredu'n dda o safbwynt gweinyddol, gyda'r rhan fwyaf o gwynion yn cael eu trin o fewn y raddfa amser benodol, mae'r Bwrdd wedi nodi achosion penodol lle canfuwyd bod dyfnder yr ymholiadau a wnaed gan y staff wedi bod yn annigonol, a lle mae swyddogion wedi methu â chydabod yr angen i gyfeirio'r materion dan sylw at eu rheolwyr llinell. Mae hyn wedi arwain at y ffaith fod ymatebion i rai cwynion yn anghywir ac yn anghyflawn. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod adolygiad o'r system gwynion yn cael ei wneud.**

Mae'r Bwrdd yn ddyledus eto i Mrs Tracey Hearne, ein Clerc diwyd, y mae ei gwybodaeth am y carchar a'i ffordd o weithio yn parhau i fod o fudd mawr i ni.

Ceisiadau

Cod	Pwnc	2011-12	2012-13	2013-14
A	Llety	21	21	18
B	Dyfarniadau	6	17	13
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys crefydd)	9	19	14
D	Addysg / Cyflogaeth / Hyfforddiant gan gynnwys RhAU	42	42	43
E1	Teulu / ymweliadau gan gynnwys post a ffôn	101	88	84
E2	Cyllid / cyflog	1	1	2
F	Ymwneud â bwyd / cegin	20	13	7
G	Cysylltiedig ag iechyd	191	172	91
H1	Eiddo (yn ystod trosglwyddo i mewn i/allan o sefydliad arall)	61	26	26
H2	Eiddo (o fewn sefydliad presennol)	48	50	54
H3	Ffreutur, cyfleusterau, siopa catalog h.y. Argos	33	18	5
I	Yn gysylltiedig â Dedfryd (gan gynnwys HDC, ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio ac ati)	45	61	65
J	Pryderon staff/carcharorion gan gynnwys bwlio	55	74	61
K	Trosglwyddiadau	26	36	21
L	Amrywiol	107	126	49
	Cyfanswm y ceisiadau IMB	766	764	553*

* Mae'r cyfanswm ar gyfer 2013-14 yn cynnwys 14 o geisiadau mynediad cyfrinachol at Gadeirydd y Bwrdd.